
Adran Gwaith a Phensiynau

# Gwneud cais am **Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol**

**Hawdd i'w Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **IIDB2ERW**_1022

# Cynnwys


1

Adran Gwaith a Phensiynau

**Cyflwyniad**

Tudalen 3

2

IIDB

**Budd-daliadau eraill y gallech eu cael**

Tudalen 5

3

PWYSIG

**Rhoi gwybod am newid yn eich anabledd neu amgylchiadau**

Tudalen 7

4



**Os nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad**

Tudalen 10

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith
a Phensiynau

Darperir Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.




Mae’n cefnogi pobl sydd â salwch neu gyflyrau iechyd penodol oherwydd:

- Damwain a ddigwyddodd yn y gwaith
- Roedd y math o waith yr oeddent yn ei wneud yn arwain at iechyd gwael.

IIDB

Weithiau gelwir Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol yn IIDB.




Bydd y wybodaeth yn dweud wrthych:

- Pa fudd-daliadau eraill y gallech eu cael
- Am roi gwybod am newid i'ch amgylchiadau
- Beth i'w wneud os nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad cais.

I gael rhagor o wybodaeth Hawdd i'w Ddarllen am IIDB, ewch i www.gov.uk

Chwilio am **Easy Read IIDB**.

# 2 Budd-daliadau eraill y gallech eu cael

**IIDB**

Os ydych yn cael IIDB, efallai y gallwch gael budd-daliadau eraill i'ch cefnogi.




Mae hyn yn cynnwys:

- Lwfans Gweini Cyson
- Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol
- Lwfans Enillion Is



- Cyfandaliad gan y Ganolfan Byd Gwaith a wnaed o dan Ddeddf Iawndal Gweithwyr 1979
- Taliad mesothelioma ymledol.



Ni all pawb gael y budd-daliadau eraill hyn ar ben eu IIDB.

I gael gwybod pwy all hawlio’r cymorth ychwanegol hwn, ewch i www.gov.uk/budd-dal-anabledd-anafiadau-diwydiannol/rhagor-o-wybodaeth

# 3 Rhoi gwybod am newid yn eich anabledd neu amgylchiadau



Os bydd eich anabledd neu gyflwr iechyd yn newid, mae'n bwysig iawn dweud wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau cyn gynted â phosibl.



Gall newid yn eich anabledd neu gyflwr iechyd effeithio ar faint o IIDB a gewch.




Os na fyddwch yn rhoi gwybod am newid yn eich anabledd neu gyflwr iechyd, efallai y bydd yn rhaid i chi fynd i'r llys neu dalu dirwy.

**Mae angen i chi hefyd gysylltu â llinell gymorth IIDB cyn gynted â phosibl os:**




Rydych chi'n newid eich enw neu rywedd.



Rydych yn priodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil.



Rydych chi'n symud tŷ ac yn newid cyfeiriad.



Rydych yn mynd i’r carchar.



Mae eich statws mewnfudo yn newid.



Rhaid i chi roi gwybod am unrhyw un o’r newidiadau hyn os byddwch yn cael IIDB.

Rhaid i chi hefyd roi gwybod am unrhyw un o’r newidiadau hyn os ydych yn cael Atodiad i’r Anghyflogadwy.

I gael manylion cyswllt IIDB, darllenwch: Hawdd ei Ddarllen Am IIDB neu ewch i www.gov.uk/budd-dal-anabledd-anafiadau-diwydiannol/rhoi-gwybod-am-newid-mewn-amgylchiadau

# 4 Os nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad



Ar ôl i chi wneud eich cais am IIDB, byddwn yn edrych ar yr holl wybodaeth a anfonoch atom.



Os cawsoch apwyntiad meddygol gyda gweithiwr iechyd proffesiynol, byddwn hefyd yn edrych ar eu hadroddiad.




Yna gwneir penderfyniad ar eich cais.



Os nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad, gallwch ofyn i ni edrych arno eto.



Pan edrychwn ar y penderfyniad eto, rydym yn galw hwn yn **Ailystyriaeth Orfodol**.



Mae '**Ailystyriaeth Orfodol**' yn golygu byddwn yn edrych ar:

- Y wybodaeth gwnaethoch ei rhoi i ni'n wreiddiol
- Unrhyw wybodaeth newydd rydych yn ei rhoi
- A oes unrhyw newidiadau wedi bod yn eich amgylchiadau.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i weld a allwn newid ein penderfyniad.

**1**
**mis**

Fel arfer mae angen i chi ofyn i ni edrych ar eich cais eto o fewn **1 mis** i'r dyddiad ar eich llythyr penderfyniad.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk) a chwiliwch am '**appeal a benefit decision**'.



Os hoffech siarad â ni am ein penderfyniad, ffoniwch linell gymorth IIDB ar **0800 121 8379**.



Gallwch ysgrifennu llythyr yn dweud wrthym pam nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad.

Anfonwch eich llythyr i'r cyfeiriad ar eich llythyr penderfyniad.




Gallwch hefyd lenwi ‘**Ffurflen gais am Ailystyriaeth Orfodol**’.

I gael y ffurflen a dysgu mwy am **Ailystyriaeth Orfodol,** ewch i www.gov.uk a chwiliwch am ‘**challenge a DWP decision**’.